Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# **Llythrennedd a rhifedd:**
# Atebion i'ch cwestiynau



# Llythrennedd a rhifedd: Atebion i'ch cwestiynau

**Cynulleidfa**

Ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg a staff cymorth sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; tiwtoriaid addysg gychwynnol athrawon; llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru sydd â diddordeb.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn cynnig cymorth i ysgolion drwy roi atebion i gwestiynau allweddol ynglŷn â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig**

Mae dogfennau i ategu gweithredu'r FfLlRh i'w gweld yn learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy gan gynnwys *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2013); *Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013); *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2014).

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30072 ISBN digidol 978 1 4734 9307 0

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pam y lluniwyd y ddogfen hon? | 2 |
| 1. Cynllunio'r cwricwlwm a'r FfLlRh | 4 |
| 2. Y Cyfnod Sylfaen a'r FfLlRh | 9 |
| 3. Cyfrifoldeb am y FfLlRh | 12 |
| 4. Data, asesu a'r FfLlRh | 14 |
| 5. Tracio a'r FfLlRh | 16 |
| 6. Profion cenedlaethol fel asesiad ffurfiannol | 18 |
| 7. Y profion cenedlaethol ac arolygu ysgolion | 20 |

# Pam y lluniwyd y ddogfen hon?

Ysgrifennwyd y ddogfen hon er mwyn egluro ein gweledigaeth yn ystod cyfnod o newid. Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd datblygedig yn hanfodol er mwyn galluogi dysgwyr i chwarae rôl weithgar a hyderus mewn cymdeithas ac i fod mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion a disgwyliadau bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

> **'Rydym eisoes wedi rhoi blaenoriaeth i lythrennedd a rhifedd. Cyflwynwyd y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn 2012 ac wedyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) yn 2013. Mae llawer o ysgolion wedi gwneud cynnydd cyson ar weithredu'r FfLlRh. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hymgorfforí mewn ffordd ystyrlon ym mhob ysgol. Felly byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd gan eu bod yn hanfodol i'n cwricwlwm newydd.'**
>
> ***Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (Llywodraeth Cymru, 2015, tudalen 16)**

Mae *Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – cynllun gweithredu strategol* (Llywodraeth Cymru, 2016) yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd wrth i ni symud ymlaen tuag at gwricwlwm newydd. Yn y cwricwlwm newydd bydd cymhwysedd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ar gyfer pob athro/athrawes. Bydd hefyd bwyslais ar y ffordd mae asesu ar gyfer dysgu mewn llythrennedd a rhifedd yn ganolog i gefnogi ein dysgwyr i gymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

## Ar gyfer pwy fydd y ddogfen o gymorth?

Bydd y ddogfen hon o gymorth os ydych yn:

**athro/athrawes neu'n athro cymorth/athrawes gymorth sy'n gweithio gyda dysgwyr ar sail dosbarth cyfan, grŵp bach neu unigol**

- Bydd yn cadarnhau disgwyliadau statudol ac yn dylanwadu ar y profiadau addysgu a dysgu rydych yn eu rhoi i'ch dysgwyr.
- Gallai godi cwestiynau ynglŷn â'ch ymarfer neu ddarpariaeth bresennol a all arwain at drafodaethau defnyddiol â chydweithwyr.
- Bydd yn ateb cwestiynau neu 'fythau' cyffredin am y FfLlRh a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

**arweinydd ysgol, yn aelod o dîm arwain neu’n athro/athrawes â chyfrifoldeb cwricwlaidd neu am gyfnod**

- Bydd yn ystyried y mythau a allai gael effaith andwyol ar ddarpariaeth.
- Bydd yn eich helpu i adolygu neu ddiweddaru eich dogfennaeth neu ategu eich disgwyliadau i’ch staff er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson.
- Bydd yn darparu deunydd i’w drafod yn ystod cyfarfodydd staff neu ddyddiau HMS, gan eich helpu i werthuso pa mor dda y mae eich darpariaeth yn cyflawni’r awgrymiadau arfer gorau sydd wedi’u cynnwys yn y ddogfen.
- Mae’n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer timau neu arweinwyr pwnc, neu benaethiaid adran, wrth arwain staff o ran arfer gorau a sut y caiff hyn ei adlewyrchu ar lefel athro/athrawes neu ystafell ddosbarth.

**llywodraethwr**

- Bydd yn rhoi gwybodaeth i chi am beth yw defnydd effeithiol o’r FfLlRh a gweinyddu’r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn effeithiol.
- Gall lywio sgyrsiau manwl â’r pennaeth, tîm arwain neu athrawon ynglŷn â pha mor dda y mae’r ysgol wedi gweithredu’r FfLlRh a pha mor effeithiol y gwnaed hyn.
- Gall lywio sgyrsiau â’r pennaeth, tîm arwain neu athrawon ynglŷn â dull yr ysgol o weithredu’r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a pha mor gyson yw hyn o fewn yr ysgol.

# 1. Cynllunio'r cwricwlwm a'r FfLlRh

Os nad wyf yn arbenigwr llythrennedd neu rifedd a oes angen i mi addysgu'r sgiliau hyn?

Nid wyf yn aelod o'r adran/tîm Cymraeg, Saesneg na mathemateg. A ddylai sgiliau llythrennedd neu rifedd fod yn rhan o'm gwersi?

A oes rhaid i mi addysgu'r FfLlRh ymhob pwnc neu ymhob gwers?

**Dylai pob athro/athrawes weld ei hun fel athro/athrawes llythrennedd a rhifedd mewn ffordd sy'n cefnogi'r pwnc neu'r thema y mae'n ei addysgu neu'n ei haddysgu. Fodd bynnag, nid oes rhaid cynnwys sgiliau llythrennedd neu rifedd ymhob pwnc neu wers, os nad yw hyn yn briodol.**

- Cynlluniwyd y FfLlRh i fod yn adnodd cynllunio trawsgwricwlaidd ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn briodol o fewn pynciau, testunau a themâu.
- Mae pynciau, testunau a themâu y tu allan i wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i gymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau diddorol ac amrywiol.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- nodi cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd yn unol â disgwyliadau blynyddol y FfLlRh
- nodi neu gynllunio ar gyfer cyfleoedd lle gall sgiliau llythrennedd a rhifedd ddigwydd yn naturiol o fewn gwers neu bwnc
- sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o gyfleoedd, ond nad ydyn nhw'n ffuantus
- gwneud y gorau o gyfleoedd i addysgu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd, sy'n egwyddor allweddol o'r FfLlRh. Gellir addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn benodol i ddechrau cyn eu cymhwyso yn y cwricwlwm ehangach neu mewn pynciau a themâu eraill.

## Dywed Estyn

'Pan fydd arolygwyr yn arsylwi gwersi yn ystod arolygiadau, nid oes blychau ticio ganddynt i'w llenwi ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Dylai athrawon fanteisio ar y cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn y cwricwlwm i atgyfnerthu dysgu mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu bod llythrennedd a rhifedd yn troi'n ddeddf y mae'n rhaid ei chynnwys ym mhob gwers yn y diwrnod ysgol, ni waeth beth yw'r pwnc.'
*Arolygu/Eglurhad* (Estyn, 2015, C6)

'Nid oes disgwyl i ysgolion greu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos eu medrau mewn TGCh, rhifedd, llythrennedd neu Gymraeg ym mhob gwers.'
*Arolygu/Eglurhad* (Estyn, 2015, C22)

**Er bod ysgolion wedi cael cymorth i weithredu'r FfLlRh, pob lleoliad unigol sy'n penderfynu sut y gwneir hyn.**

- Mae cyfres o ddeunyddiau ar gael ar wefan Dysgu Cymru i gynorthwyo ysgolion i weithredu'r FfLlRh yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys: canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm; deunyddiau hyfforddi; canllawiau ar asesu; deunyddiau enghreifftiol; a thasgau ystafell ddosbarth.
- Ers mis Medi 2015 darparwyd cymorth parhaus ar gyfer y FfLlRh drwy'r consortia rhanbarthol.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- adolygu addysgu a dysgu er mwyn sicrhau y caiff y FfLlRh ei weithredu yn unol â gweledigaeth a disgwyliadau'r ysgol. Pa mor gyson yw hyn?
- diwygio gweledigaeth neu ddisgwyliadau eich ysgol er mwyn adlewyrchu realiti'r hyn sy'n ystyrlon ar gyfer pob pwnc neu thema a bod sgiliau ond yn cael eu haddysgu lle nad yw'n ffug nac yn ffuantus
- samplu llyfrau'r dysgwyr er mwyn gweld a oes cyfleoedd pellach i ddatblygu sgiliau
- datblygu dull gweithredu clwstwr sy'n sefydlu athroniaeth graidd a chynllunio ar gyfer defnyddio'r FfLlRh.

## Dywed Estyn

'Nid oes strwythur neu batrwm gwersi 'wedi ei gymeradwyo gan Estyn'. Er enghraifft, nid oes angen i athrawon gyflwyno'r amcan dysgu yn ffurfiol ar ddechrau gwers na gorffen gyda sesiwn lawn i arolygwyr farnu bod gwers yn dda. Mae'r ffocws allweddol ar effeithiolrwydd y wers o ran safonau a dysgu, nid y dull na'r fformat.'
*Arolygu/Eglurhad* (Estyn, 2015, C5)

'Yn y ddwy ran o dair o ysgolion lle mae'r cwricwlwm yn dda, mae athrawon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod medrau llythrennedd a rhifedd cadarn gan ddisgyblion ac maent yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent wedi ymgorffori'r fframwaith yn eu cynlluniau cwricwlwm, ond nid ydynt wedi gadael iddo bennu'n ormodol beth maent yn ei addysgu neu sut maent yn addysgu. Mewn ysgolion llwyddiannus, nid ôl-ystyriaeth neu 'flwch i'w lenwi' yw'r fframwaith, ond mae'n anhepgor i'r gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm.'
*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 24)

**Mae fy ngwersi yn ymwneud yn bennaf ag addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd bellach. Ai bwriad y FfLlRh oedd culhau'r cwricwlwm?**

**Disgwylir i ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cael ei wella drwy ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.**

- Ni ddylai'r FfLlRh ddisodli darpariaeth cwricwlwm, ond dylid ei ddefnyddio i gefnogi a datblygu gwybodaeth dysgwyr am gysyniadau, pynciau a themâu allweddol.
- Mae ysgolion sydd wedi rhoi'r FfLlRh ar waith fwyaf wedi datblygu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cefnogi ac yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon sy'n ennyn diddordeb.
- Mae adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* (Llywodraeth Cymru, 2015) yn argymell y dylai llythrennedd a rhifedd, ynghyd â chymhwysedd digidol, ffurfio cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd. Mae ein darpariaeth bresennol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a nodir yn y *Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – cynllun gweithredu strategol* (Llywodraeth Cymru, 2016) yn rhoi sail dda y gellir adeiladu'r cwricwlwm newydd arni.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- adolygu ehangder a chydbwysedd eich cwricwlwm, gan gynnwys dechrau ystyried pedwar diben adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus*
- cynnal sesiwn 'Gwrando ar Ddysgwyr' er mwyn clywed eu barn ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol, a pha mor ddiddorol a chreadigol ydyw o'u safbwynt nhw
- ymweld ag ysgolion sydd wedi datblygu dull gweithredu creadigol tuag at y cwricwlwm neu sydd â themâu lleol diddorol neu unedau gwaith trawsgwricwlaidd, neu ddysgu mwy am yr ysgolion hynny
- ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol megis y Gemau Olympaidd neu ganmlwyddiant Roald Dahl a chynnwys y rhain yn eich darpariaeth cwricwlwm
- edrych yn ofalus ar ddysgwyr sydd â phresenoldeb isel neu ba ddiwrnod ysgol sydd â'r presenoldeb isaf. Cynllunio ar gyfer diwrnodau creadigol er mwyn ysgogi dysgwyr i fynychu ysgol.

## Dywed Estyn

'Mae cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru bellach yn mynnu lefelau medrau uwch o lawer nag yn y gorffennol. Mae angen i gwricwlwm sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ddatblygu cryfderau deallusol dysgwyr, eu chwilfrydedd a'u creadigrwydd, a'u hyblygrwydd a'u gwydnwch. Mae cwricwlwm heriol ac uchelgeisiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau meddwl lefel uchel – eu hymresymu llafar, rhifiadol a beirniadol. Y rhain yw'r medrau sydd eu hangen ar gyfer y rhan fwyaf o arholiadau, ac, yn arbennig, ar gyfer y TGAU newydd mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, yn ogystal ag ar gyfer PISA. Felly, ni ddylai fod unrhyw densiwn rhwng profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac yn cyffroi pobl ifanc, a rhai sy'n sicrhau safonau uchel mewn llythrennedd a rhifedd, ymresymu a gallu creadigol, a llwyddiant mewn arholiadau.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 7)

'Mae llawer o ysgolion wedi lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar bynciau a meysydd dysgu nad ydynt yn rhai craidd. Gwneir hyn yn aml ar ôl cyflwyno dulliau llawdrwm o ddatblygu llythrennedd a rhifedd, gyda'r nod o hybu eu data perfformiad a deilliannau profion blynyddol. Mae newidiadau diweddar i gymwysterau a mesurau perfformiad wedi arwain llawer o ysgolion uwchradd i leihau nifer y dewisiadau opsiynau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Nid yw culhau'r cwricwlwm fel hyn o angenrheidrwydd wedi arwain at ddeilliannau gwell.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 30)

'Ceir diffygion mewn ychydig o dan draean o ysgolion, lle nad yw'r cynllunio'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws ystod eang o bynciau ac mae'r ffocws ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn rhy gul.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 42)

# 2. Y Cyfnod Sylfaen a'r FfLlRh

## A yw'r FfLlRh yn cyd-fynd â dulliau dysgu drwy brofiad a chwarae'r Cyfnod Sylfaen?

**Nid yw cyflwyno'r FfLlRh yn golygu dychwelyd at ddull dosbarth-cyfan o addysgu llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn cefnogi datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant a'u datblygiad mathemategol, rhaid i ymarferwyr sicrhau cydbwysedd rhwng profiadau dysgu gweithredol a dysgu drwy chwarae, a rhwng dysgu a arweinir gan y plentyn a dysgu a arweinir gan oedolyn. Mae rhaid i'r profiadau hyn fod o fewn maes profiad y plentyn ac yng nghyd-destun bywyd go iawn sy'n gweddu i'w oedran a'r cam datblygu y bydd wedi'i gyrraedd.**

- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfleoedd dysgu a datblygu gorau posibl gydol y Cyfnod Sylfaen. Mae'r FfLlRh a'i ddull trawsgwricwlaidd o weithredu yn hybu ac yn cefnogi egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.
- Rydym yn cydnabod nad yw pob plentyn yn datblygu yn yr un ffordd ac mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar pan fydd datblygiad gwahanol blant yn gallu dilyn llwybrau gwahanol iawn i'w gilydd. Mae strwythur y FfLlRh yn caniatáu i athrawon sicrhau eu bod yn cynnwys y sgiliau priodol wrth iddyn nhw gyflwyno'r cwricwlwm. Rhaid ystyried y cam datblygu y mae'r dysgwr wedi'i gyrraedd, e.e. drwy ddefnyddio datganiadau'r flwyddyn uwchlaw a'r flwyddyn islaw i gefnogi gwahaniaethu.
- Mae tystiolaeth dda i ddangos bod y Cyfnod Sylfaen yn gwella cyrhaeddiad pob plentyn pan fo'n cael ei roi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys gwelliannau mewn presenoldeb, llythrennedd, rhifedd a lles cyffredinol dysgwyr. Nid yw hyn yn cynnwys defnyddio dulliau ffurfiol o addysgu llythrennedd a rhifedd. Bydd llawer o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddir wrth roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, yn enwedig dysgu drwy brofiadau, yn ymestyn ar draws holl gwmpas y cwricwlwm newydd. Mae'n bwysig felly ein bod yn parhau i wella'r modd rydyn ni'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen er mwyn gosod y broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith ar sylfaen gadarn yr arfer gorau.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich lleoliad/ysgol:**

- canolbwyntiwch ar ddefnyddio storïau, caneuon a rhigymau cyn cyflwyno llythrennau, synau a rhifau
- sicrhewch fod ymarferwyr yn cael cyfarwyddiadau clir a hyfforddiant i'w galluogi nhw i seilio eu gwaith cynllunio ar sgiliau a nodwyd yn y FfLlRh, ac i lunio tasgau cyfoethog sy'n galluogi plant i ddysgu ac yn eu galluogi i atgyfnerthu'r sgiliau hynny ar draws yr holl Feysydd Dysgu. Yna dylai ymarferwyr arsylwi ar blant o fewn y meysydd darpariaeth er mwyn gwerthuso effaith y dysgu a chynllunio ar gyfer y camau dysgu nesaf
- dylech osgoi cyflwyno dulliau ffurfiol o addysgu llythrennedd a rhifedd cyn bod plant wedi datblygu iaith lafar ddigonol. Canolbwyntiwch ar gefnogi sgwrs plant yn lle hynny; ac ar ddarparu llawer o gyfleoedd i sgwrsio â phlant eraill ac oedolion
- darparwch gyfleoedd i blant wneud dewisiadau o ran eu dysgu, i'w helpu nhw i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol ac i ymgysylltu â sgiliau llythrennedd a rhifedd
- dylech osgoi dilyn cynlluniau gwaith yn slafaidd gan fod hyn yn cyfyngu ar y posibiliadau i'r dysgwyr ddilyn eu diddordebau, a gall arwain at gwricwlwm sy'n gaeth ac yn or-benodol. Pan fo addysgu penodol yn cael ei ddefnyddio, dylai hynny fod mewn grwpiau bach am gyfnodau byr
- cynlluniwch yr amgylchedd dysgu, o dan do ac yn yr awyr iach, i ddarparu cyfleoedd diddorol i blant ymarfer eu sgiliau iaith, llythrennedd a rhifedd ar lefel sy'n briodol iddyn nhw
- peidiwch ag 'addysgu ar gyfer' y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol gan y bydd hynny'n arwain gan amlaf at ddefnyddio dulliau addysgu sy'n or-benodol.

## Dywed Estyn

'Mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion, mae safonau rhifedd yn dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn... Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau trin data a mesur fel rhan o'u dysgu bob dydd. Mae llawer ohonynt yn pwyso cynhwysion mewn 'cegin fwd' ac yn creu ac yn dehongli siartiau cyfrif syml sy'n dangos canfyddiadau o helfa chwilod. Mewn ysgolion lle mae safonau rhifedd yn ddigonol, ceir gormod o ddibynnu ar addysgu ffurfiol ac ar daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar gyfle disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015–2016* (Estyn, 2017, tudalen 43)

'Ceir gormod o ysgolion lle mae'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn mynd yn rhy strwythuredig a ffurfiol yn rhy fuan. Mae hyn yn lleihau gallu disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddewis beth a sut maent yn dysgu, yn enwedig tuag at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015–2016* (Estyn, 2017, tudalen 46)

'Mewn rhyw chwarter o ysgolion lle bernir bod yr arweinyddiaeth yn ddigonol, mae diffyg brys ynglŷn â gwella safonau a lles disgyblion. Cyfyngedig yw cynnydd ers yr arolygiad blaenorol, ac mae arweinwyr ym methu adnabod gwendidau a mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, nid yw'r ysgolion hyn yn cyflawni arfer ddisgwyliedig y Cyfnod Sylfaen yn aml, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2. Nid yw arweinwyr wedi nodi hyn fel gwendid am nad oes gan weithdrefnau monitro ffocws ddigon eang neu am mai dealltwriaeth wan o'r Cyfnod Sylfaen sydd gan arweinwyr.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015–2016* (Estyn, 2017, tudalen 48)

# 3. Cyfrifoldeb am y FfLlRh

**Rwy'n bennaeth Cymraeg/Saesneg/mathemateg. Ai fi yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am weithredu elfennau llythrennedd neu rifedd y FfLlRh?**

**Mae'r ysgol gyfan yn gyfrifol am weithredu'r FfLlRh.**

- Nid cyfrifoldeb y pennaeth mathemateg, Cymraeg neu Saesneg, na hyd yn oed eu hadrannau, yn unig yw gweithredu'r FfLlRh.
- Mae rôl yr arweinydd llythrennedd neu rifedd o fewn ysgol yn allweddol ar gyfer cydlynu'r ffordd y defnyddir y FfLlRh mewn dosbarthiadau yn ogystal â monitro pa mor effeithiol y caiff y FfLlRh ei weithredu.
- Mae dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd o fewn y cwricwlwm yn hanfodol er mwyn sicrhau dull cyson a rennir.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- pwy yw'r person mwyaf priodol i ymgymryd â'r rôl hon ni waeth pa gyfnod na phwnc mae'n ei addysgu?
- mae llawer o ysgolion yn dewis rhoi'r cyfrifoldeb gydlynydd neu gydlynwyr llythrennedd, rhifedd neu sgiliau. Nid oes angen i'r person hwn fod yn aelod o'r adran Cymraeg, Saesneg neu fathemateg nac yn arweinydd pwnc mewn ysgol gynradd o reidrwydd.

## Dywed Estyn

'Nid yw pob ysgol yn deall beth yw'r ffordd orau o gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf yn rhestru cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd mewn cynlluniau gwaith, ond mae angen iddynt hefyd ddarparu cyd-destunau go iawn i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm, eu cysylltu â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, a threfnu'r cyfleoedd yn ddilyniant strwythuredig, ysgol gyfan. Mae'r ysgolion gorau eisoes yn gwneud hyn, ond nid yw llawer yn gwneud.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 6)

# 4. Data, asesu a'r FfLlRh

**A yw Llywodraeth Cymru neu gonsortia rhanbarthol yn casglu data ar asesu ar gyfer dysgu drwy ddefnyddio'r FfLlRh?**

**Ni chaiff data asesu ar gyfer dysgu ar gyfer y FfLlRh eu casglu'n genedlaethol.**

- Mae asesu drwy ddefnyddio'r FfLlRh yn ffurfiannol ei natur. Nid yw Llywodraeth Cymru na'r consortia rhanbarthol yn casglu nac yn defnyddio unrhyw ddata asesu ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar y FfLlRh.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- gynnal cyfres o ddigwyddiadau datblygu staff ar gynnwys datganiadau'r FfLlRh er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin ohonyn nhw, e.e. yr iaith dechnegol neu'r derminoleg. Mae hyn yn allweddol oherwydd mae'n debygol y bydd angen sicrhau cyfleoedd i drafod neu ystyried manylion yr hyn mae pob datganiad yn ei olygu i bob unigolyn a sut y ceir cytundeb ymhlith yr holl staff
- myfyrio ar y ffordd y byddwch yn asesu cynnydd dysgwyr a datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd dros gyfnod o amser. A oes cydbwysedd da o gyfleoedd ffurfiannol? A gynhelir asesiadau yn erbyn datganiadau'r FfLlRh mewn amrywiaeth o gyd-destunau, pynciau neu themâu?
- a yw hunanasesiadau ac asesiadau gan gyfoedion yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr asesu eu cynnydd yn erbyn y sgiliau neu ddatganiadau yn y FfLlRh ochr yn ochr ag asesiad yr athro/athrawes?

## Dywed Estyn

'Mae asesu pwrpasol yn helpu athrawon i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu disgyblion, ac o ganlyniad, mae'n helpu codi safonau.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 24)

**Fel athro/athrawes a oes disgwyl i mi lunio barn cyd-fynd orau ar gyfer y FfLlRh ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer pob un o'm dysgwyr? A ddylwn asesu pa grŵp blwyddyn y mae dysgwr yn gweithio ynddo a chynnwys hyn yn yr adroddiad i rieni/gofalwyr?**

**Ni ddisgwylir i athrawon lunio barn cyd-fynd orau ar gyrhaeddiad dysgwr yn erbyn disgwyliadau blynyddol y FfLlRh.**

- Mae asesu drwy ddefnyddio'r FfLlRh yn ffurfiannol ei natur, nid yn gyfunol.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- yn eich lleoliad a yw'r holl athrawon yn sicrhau bod eu darpariaeth yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau?
- fel rhan o arfer ystafell ddosbarth arferol dylai athrawon asesu pa mor dda y mae eu dysgwyr yn ymateb i hyn o ran meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd
- a yw eich adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr ar y FfLlRh mewn fformat naratif ac a yw'n cynnwys camau nesaf taith llythrennedd a rhifedd y dysgwyr?
- a yw eich darpariaeth yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd i herio dysgwyr yn ogystal â chynllunio tasgau cyfoethog sy'n galluogi dysgwr i arddangos y sgiliau FfLlRh y gall eu defnyddio'n annibynnol?

## Dywed Estyn

'Mae pryderon ynghylch asesu ac atebolrwydd hefyd yn atal llawer o ysgolion rhag bod yn arloesol. Gall arweinwyr llai hyderus hyrwyddo diwylliant lle mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond heb fawr o effaith ar safonau. Maent yn casglu cryn dipyn o wybodaeth am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, ond nid ydynt yn ei ddefnyddio i lywio'r addysgu nac i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 30)

# 5. Tracio a'r FfLlRh

**A ddylwn dracio perfformiad dysgwr drwy ddefnyddio'r FfLlRh? A oes angen i mi greu neu brynu adnodd electronig i wneud hynny?**

**Nid oes gofyniad i dracio cynnydd ar draws y cwricwlwm ac ni ddylai ysgolion deimlo bod rhaid iddyn nhw brynu meddalwedd nac adnoddau electronig i'w galluogi i wneud hynny.**

- Mae'n ofyniad statudol bod ysgolion yn defnyddio'r FfLlRh fel adnodd cynllunio'r cwricwlwm. Mae hefyd yn ofyniad statudol bod ysgolion yn asesu'n ffurfiannol drwy ddefnyddio'r FfLlRh ac yn llunio adroddiad naratif blynyddol i'r rhieni/gofalwyr ar y FfLlRh mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg a Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol.
- Efallai y bydd ysgolion yn teimlo y byddai adnodd tracio yn ddefnyddiol ar gyfer tracio cynnydd dysgwr unigol yn ogystal â chynnydd gwahanol grwpiau megis bechgyn a merched, y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydyn nhw'n eu cael. Fodd bynnag, bydd Estyn yn edrych ar ba mor dda y defnyddir data a ph'un a gânt eu defnyddio i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer cynnydd dysgwyr.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- drafod â phob aelod o staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, sut mae gwybodaeth asesu yn bwydo i mewn i waith cynllunio a darpariaeth
- sefydlu strategaethau craidd ar draws clwstwr ar gyfer asesu ar draws y clwstwr, yn benodol asesu sgiliau llafaredd a darllen.

## Dywed Estyn

'Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata i ddadansoddi perfformiad disgyblion ac i olrhain eu cynnydd. Mae mwy o ysgolion yn defnyddio data'n effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, ond nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd mewn ychydig o ysgolion. Lle mae dadansoddi data perfformiad yn fwyaf effeithiol, mae'n codi cwestiynau ac yn llywio barn ynglŷn â pha mor dda y mae'r ysgol yn gwneud, yn ogystal ag ychwanegu at ystod o dystiolaeth uniongyrchol ar safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.'

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 44)

# 6. Profion cenedlaethol fel asesiad ffurfiannol

**A ddefnyddir canlyniadau profion cenedlaethol i fesur perfformiad fy ysgol?**

**Ni chaiff canlyniadau'r profion eu cynnwys yn y gyfres o fesurau perfformiad ar gyfer categoreiddio ysgolion cynradd nac ysgolion uwchradd.**

- Mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn cynnig asesiad ffurfiannol o sgiliau darllen a rhifedd ar lefel dysgwr, yn erbyn y FfLlRh. Mae hyn yn galluogi ysgolion i sicrhau y caiff cryfderau a meysydd ar gyfer gwella eu nodi fel y gall athrawon helpu pob dysgwr i wneud cynnydd o ran datblygu ei sgiliau darllen a rhifedd.
- O dan System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru, gofynnir i ysgolion sut y gallan nhw weithredu ar yr wybodaeth am sgiliau'r dysgwyr a ddarperir drwy'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Gall hyn gynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr unigol neu ddosbarthiadau cyfan. Dylid hefyd ystyried sut y defnyddir gwybodaeth profion ochr yn ochr ag asesiadau athrawon yng nghynllun rheoli a datblygu'r ysgol.
- Dros amser, caiff y profion eu disodli gan brofion ar-lein y gellir eu haddasu. Yn yr asesiadau newydd, personol hyn, caiff cwestiynau eu haddasu er mwyn cyfateb i lefel sgiliau pob dysgwr a'i herio. Rhoddir pwyslais ar ddarparu ystod o wybodaeth ffurfiannol i ddysgwyr, athrawon a rhieni/gofalwyr er mwyn helpu'r dysgwr i wneud cynnydd. Ni chaiff yr wybodaeth o'r asesiadau ei defnyddio at ddibenion atebolrwydd ar lefel awdurdod lleol, rhanbarthol na chenedlaethol.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- pa mor effeithiol rydych yn defnyddio'r wybodaeth o brofion i gynllunio darpariaeth ar gyfer pob dysgwr
- mae profion ac asesiadau athrawon yn darparu gwahanol wybodaeth – mae canlyniad prawf yn adlewyrchu'r sgiliau a ddangosir drwy ymatebion ysgrifenedig ar achlysur penodol, tra bod asesiadau athrawon yn cael eu ffurfio ar sail cryn dystiolaeth dros amser. Pa mor effeithiol ydych chi'n dadansoddi p'un a oes cyswllt rhwng asesiadau athrawon a data profion? Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth hon?
- cyfeirio at yr wybodaeth i rieni/gofalwyr ar wefan Dysgu Cymru ynglŷn â'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar eich gwefan ac wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr, fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

## Dywed Estyn

'Mae asesu pwrpasol yn helpu athrawon i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu disgyblion, ac o ganlyniad, mae'n helpu codi safonau.'
*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 24)

# 7. Y profion cenedlaethol ac arolygu ysgolion

**A fydd Estyn yn barnu ein canlyniadau profion fel rhan o'n harolygiad?**

**Dywed Estyn y dylid defnyddio canlyniadau profion cenedlaethol at ddibenion diagnostig.**

- Nid yw Estyn yn llunio barn ar berfformiad ysgol yn seiliedig ar ganlyniadau profion.
- Mae Estyn yn chwilio am dystiolaeth o sut mae ysgol yn defnyddio'r wybodaeth ddiagnostig y mae'r profion yn ei darparu.
- Mae Estyn yn disgwyl i ysgol feddu ar wybodaeth am ba mor dda y mae dysgwyr yn ei wneud o ran darllen a rhifedd. Bydd hyn yn cynnwys ystod o dystiolaeth megis asesiadau athrawon a gwaith ysgrifenedig dysgwyr, a dylid ystyried yr wybodaeth o'r profion cenedlaethol yn y cyd-destun hwn.

## Sicrhau arfer effeithiol

**Yn eich ysgol, ystyriwch:**

- sut rydych yn defnyddio'r data o'r profion cenedlaethol?
- a ddefnyddir y data i nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu a'r camau gweithredu ar lefel cyfnod, dosbarth a dysgwr unigol?
- sut mae grwpiau'n cymharu ag eraill, e.e. bechgyn a merched, dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydyn nhw'n eu cael, dysgwyr sy'n derbyn ymyriad wedi'i dargedu o gymharu â'r rheini nad ydyn nhw'n ei gael?
- a yw pob athro/athrawes yn defnyddio'r wybodaeth mewn modd diagnosteg ac yn datblygu ei ddarpariaeth er mwyn targedu gwendidau?

## Dywed Estyn

‘Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata i ddadansoddi perfformiad disgyblion ac i olrhain eu cynnydd. Mae mwy o ysgolion yn defnyddio data’n effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, ond nid yw hyn wedi’i ddatblygu’n ddigonol o hyd mewn ychydig o ysgolion. Lle mae dadansoddi data perfformiad yn fwyaf effeithiol, mae’n codi cwestiynau ac yn llywio barn ynglŷn â pha mor dda y mae’r ysgol yn gwneud, yn ogystal ag ychwanegu at ystod o dystiolaeth uniongyrchol ar safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.’

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015* (Estyn, 2016, tudalen 44)